

1

Cefndir

Yn 2017, cafwyd atgyfeiriad diennw yn honni bod nifer o blant wedi'u geni o ganlyniad i losgach a gyflawnwyd gan dad i un o'i ferched. Cynhaliwyd ymholiadau amlasiantaeth helaeth a ddaeth i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn cefnogi'r pryderon a godwyd. Yn 2018, gwnaeth un o'r dioddefwyr, yn 30 oed, honiad pellach i'r heddlu ei bod wedi cael ei cham-drin yn rhywiol gan ei thad ers iddi fod yn 14 oed. Cychwynnwyd achos gofal ac ymchwiliad heddlu, gan arwain at brofion DNA yn cadarnhau bod y cyflawnwr wedi cenhedlu chwech o saith o blant ei ferch arall. Cafwyd y cyflawnwr yn euog o dreisio ei ddwy ferch a'i wyres dro ar ôl tro a derbyniodd ddedfryd o 40 mlynedd dan glo.



CYSUR 4 2019

Adolygiad Ymarfer Plant



2

Y Broses Adolvgu

Mae un o'r dioddefwyr a mam y plant wedi cyfrannu'n sylweddol at yr adolygiad hwn, gan rannu ei phrofiad bywyd fel plentyn, pan ddechreuodd y cam-drin rhywiol, a'i phrofiadau mwy diweddar o fyw gyda'i chyflawnwr a'u plant.

Cydabyddir, gyda synnwyr trannoeth a thrwy lens amlasiantaeth fyfyrriol, fod dangosyddion cam-drin rhywiol yn bresennol dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys sawl beichiogrwydd hysbys cyn 16 oed a hunaniaeth anhysbys y tad. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyfleoedd dysgu a'r cyfleoedd a gollwyd a nodwyd yn hanesyddol ac yn disgyn y tu allan i'r rhanbarth hwn a'r cyfnod amser swyddogol sy'n cael ei adolygu.

7

Ymarfer a Chamau Dysgu Sefydliadol

Ymarferwyr i gael hyfforddiant digonol ar ddangosyddion cam-drin plant yn rhywiol

- Hyfforddiant Chwilfrydedd Proffesiynol i barhau i fod ar gael
- Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i barhau i hyrwyddo'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gam-drin plant yn rhywiol
- Timau diogelu ysgolion mewn awdurdodau lleol i roi systemau ar waith i adolygu unrhyw batrymau a thueddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol, gan hyrwyddo adnoddau cam-drin plant yn rhywiol
- Y Cyfarwyddwr Erllyniadau Cyhoeddus i sicrhau bod unrhyw oedi wrth ddarparu gwybodaeth ragflaenol i brosesau adran 47 yn cael ei gydnabod yn gynharach, a bod cwmnïau achrededig priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw brofion DNA
- Meddygfeydd i ystyried rhoi systemau fflagio diogelu ar waith
- Archwilio cyfleoedd i adolygu a gwella llwybrau cyfathrebu rhwng gwasanaethau plant ac oedolion

3

Hanes a Phrofiad Bw'r Dioddefwr

Aeth y dioddefwr a mam y plant i fyw gyda'i thad biolegol a'r cyflawnwr yn 11 oed. Roedd hyn yn dilyn blynyddoedd o esgeuluso plentyndod a cham-drin emosiynol lle bu'n dyst i drais ac yn teimlo nad oedd neb yn ei charu ac nad oedd ei heisiau. Roedd hi'n ddiodesfwr ymddygiad camdriniol ei thad a'r ffordd yr aeth ati'n rheibus i fagu perthynas amhriodol pan oedd hi'n dal yn blentyn ifanc ac agored i niwed, a cham-driniodd ei safle o ymddiriedaeth mewn ffordd fanteisgar. Arweiniodd dulliau rheolaeth drwy orfodaeth grymus at ei hanallu i gydnabod ei hun yn llawn fel diodesfwr, ynghyd â chred nad ei thad biolegol oedd y cyflawnwr. Roedd ofn y byddai datgelu yn arwain at golli ei phlant yn ei hatal rhag dweud wrth unrhyw un beth oedd yn digwydd iddi dros nifer o flynyddoedd.

6

Arferion Da a Nodwyd

- Gweithredodd asiantaethau'n gyflym ar y pwynt datgelu, gan gychwyn achos gofal ac ymchwiliad troseddol, gan arwain at fesurau diogelu digonol i'r plant
- Bu asiantaethau'n cydweithio i reoli achosion llys troseddol a theulu cymhleth a chydamserol
- Roedd chwilfrydedd proffesiynol ac arferion sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn amlwg drwy gydol y llinell amser ac ar draws yr holl asiantaethau
- Roedd rhannu gwybodaeth yn amserol yn amlwg ar draws asiantaethau
- Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gam-drin plant yn rhywiol wedi'i ymgorffori yn rhanbarth y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Nodir bod y gefnogaeth a ddarperir i'r teulu trwy gydol y prosesau cyfreithiol a hyd at heddiw yn rhagorol

5

Achosion o Heriau a Chyfyng-gyngor

Daeth dyfarniad amlasiantaeth, yn dilyn yr atgyfeiriad ac ymchwiliad cyntaf yn 2017, i'r casgliad nad oedd y trothwy ar gyfer cychwyn achos cyfreithiol wedi'i fodloni, gan atal ymarferwyr rhag ceisio gorchmynion cyfreithiol ar y cam hwn. Gallai hyn fod wedi arwain at ystyried cynnal profion DNA heb gydsyniad rhieni, a allai fod wedi cadarnhau tadolaeth y plant yn gynt. Gwnaeth gweithio gydag amheuaeth o gam-drin plant yn rhywiol heb ddatgeliad ac yn sgil dynameg gymhleth ymhlith y teulu, ynghyd â phryder gwirioneddol y gallai'r teulu symud i ardal arall pe bai prosesau amddiffyn plant yn cael eu cychwyn yn ffurfiol, adael gweithwyr proffesiynol gyda chyfyng-gyngor anodd a dyfarniadau cytbwys i'w gwneud ynghylch sut i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer y plant.

4

Dangosyddion Cam-drin Plant yn Rhywiol a Rhwystrau rhag Datgelu

Rhoddodd yr ymchwiliad cychwynnol lawer o bwys ar gael datgeliadau gan aelodau'r teulu. Mae ymchwil yn dangos bod dystiolaeth yn ehangach na datgelu ar lafar a bod plant yn fwy tebygol o ddangos i ni trwy ymatebion ymddygiadol eu bod yn cael eu niweidio. Mae rhwystrau rhag datgelu yn cynnwys y canlynol: gwallu ac awdurdod y cyflawnwr; dibyniaeth y diodesfwr/goroeswr ar y camdriniwr; trais ac ynysigrwydd cymdeithasol; yr oedd pob un ohonynt yn ffactorau yn yr achos hwn. Mae datgelu pan ddaw yn broses gymhleth ac efallai na fydd yn ddigwyddiad unigol. Mae'r [Templed Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol](#) yn offeryn defnyddiol a all helpu ymarferwyr sy'n gweithio gydag achosion a amheuir o gam-drin yn rhywiol.